Datganiad Preifatrwydd Cyfeillion Llyfrgell Genedlaethol Cymru

Mae Cyfeillion Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn casglu gwybodaeth bersonol at ddibenion sy'n gysylltiedig yn uniongyrchol â gwasanaeth, swyddogaeth neu weithgaredd gan y gymdeithas. Mae'r gymdeithas yn cadw'r wybodaeth hon yn ddiogel yn unol â Rheoliad Cyffredinol Gwarchod Data 2018.

Am faint o amser fyddwch chi'n cadw fy manylion personol?
Cedwir eich gwybodaeth bersonol am gyfnod rhesymol ac yn unol a'ch caniatâd.

A fydd fy manylion personol yn cael ei rannu?
Efallai y byddwn ambell waith yn defnyddio darparwr trydydd parti, MailChimp, i gyfathrebu â chi yn electronig. Rydym yn casglu ystadegau ynghylch agor e-bost a chliciau, gan ddefnyddio technolegau safonol y diwydiant i'n helpu i fonitro a gwella ein cyfathrebiadau marchnata. Gellir cael manylion pellach yn Natganiad Preifatrwydd MailChimp.
Ni fyddwn yn caniatáu i drydydd parti ddefnyddio eich manylion mewn unrhyw ffordd heblaw'r hyn a gynhwysir yn ein cytundeb ni. Ni fyddwn yn datgelu eich manylion i unrhyw gorff arall.

Beth yw fy hawliau?
O dan Reoliad Cyffredinol Gwarchod Data 2018 mae gennych hawl i dderbyn copi o'r wybodaeth bersonol sydd gennym amdanoch ac i gywiro unrhyw wybodaeth anghywir neu anghyflawn sydd gennym amdanoch, a'r hawl i wrthwynebu i ni brosesu eich gwybodaeth os ydych yn credu nad oes gennym yr hawl i brosesu'r wybodaeth yna. I weithredu'r hawliau hyn dylech wneud cais ysgrifenedig at Swyddog Gwarchod Data Cymdeithas Cyfeillion Llyfrgell Genedlaethol Cymru.

Manylion cyswllt:
Swyddog Gwarchod Data Cymdeithas Cyfeillion Llyfrgell Genedlaethol Cymru
Llyfrgell Genedlaethol Cymru
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 3BU
rhif ffôn: 01970 632 806
ebost: dpo(at)llgc.org.uk